Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2021 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2794A2022-23

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o'r cyfrifon 8

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau 10

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 19

Atodiad 2 – ffi archwilio 22

Atodiad 3 – risgiau archwilio ariannol 22

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio ar gyfer 2021 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Adroddaf ar fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- Archwiliad o gyfrifon
- Trefniadau er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

3 Digwyddodd y gwaith archwilio eleni ar adeg pan yr oedd cyrff cyhoeddus yn parhau i ymateb i'r heriau digynsail a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19, gan adfer gwasanaethau ar yr un pryd. Cynlluniwyd fy rhaglen waith i sicrhau pobl Cymru orau fod cyllid cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda. Rwyf wedi ystyried effaith yr argyfwng presennol ar gadernid a ffurf gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Ceisiais fy sicrhau nad oedd fy ngwaith yn llesteirio cyrff cyhoeddus wrth iddynt fynd i'r afael â'r argyfwng, gan sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi gwaith craffu a dysgu. Mae gwaith archwilio ar safleoedd yn parhau i fod yn gyfyngedig, a gwnaethom barhau i weithio ac ymgysylltu o bell pan oedd hynny'n bosibl, gan ddefnyddio technoleg. Mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith ar ein modd o gyflawni gwaith archwilio, ond mae hefyd wedi helpu i ymgorffori newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

4 Fel yn 2020, nid oedd cyflawni fy archwiliad o waith cyfrifon heb ei heriau, nid yn unig o ran sut a ble y gwnaethom ymgymryd â'r gwaith, ond hefyd o ran ystyriaethau ar gyfer datganiadau ariannol sy'n deillio'n uniongyrchol o'r pandemig. Mae'r llwyddiant wrth ei gyflawni yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan fy staff a swyddogion y Bwrdd Iechyd, er mwyn croesawu a galluogi ffyrdd newydd o weithio a pharhau i fod yn hyblyg ac yn ystyriol o'r materion niferus sy'n codi.

5 Rwyf wedi addasu pwyslais ac ymagwedd fy ngwaith archwilio perfformiad i sicrhau ei berthnasedd yng nghyd-destun yr argyfwng ac i alluogi gweithio o bell. Mae fy rhaglen waith wedi canolbwyntio ar themâu, gwersi a chyfleoedd sy'n ymwneud â llywodraethu'r GIG a llesiant staff y GIG. Rwyf wedi adolygu'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu a'r broses o gyflwyno'r brechlyn COVID-19. Mae fy nhimau archwilio lleol wedi sôn am sut mae trefniadau llywodraethu wedi eu haddasu er

mwyn ymateb i'r pandemig, a'r effaith y mae'r argyfwng wedi ei chael ar y broses o ddarparu gwasanaethau. Rwyf hefyd wedi adolygu trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

6 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd mewn adroddiadau manylach eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws y gwaith arfaethedig sy'n cael ei ailgwmpasu ar hyn o bryd.

7 Cyflwyna **Atodiad 2** yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi er mwyn talu am y costau o ymgymryd â'm gwaith, o'u cymharu â'r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2021.

8 Noda **Atodiad 3** y risgiau archwilio ariannol a nodir yn fy Nghynllun Archwilio 2021 a sut yr aed i'r afael â nhw drwy'r archwiliad.

9 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Rydym yn ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Bwrdd llawn yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2022 ac yn sicrhau bod gan y Pwyllgor Archwilio gyfle i drafod yr adroddiad a rhoi sylwadau arno pan fydd yn cyfarfod nesaf ar 15 Mawrth 2022. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i wneud trefniadau i'w gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

10 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o gyfrifon

11 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi'n briodol a'u bod yn sylweddol gywir, ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (fel yr oeddent yn berthnasol i'm harchwiliad). Fodd bynnag, rhoddais baragraff Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad i dynnu sylw at ddatgeliadau yn y cyfrifon yn nodyn 21 sy'n ymwneud ag effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, er mwyn cyllido rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr y GIG mewn cysylltiad â blwyddyn ariannol 2020-21.

12 Roedd trafodiadau ariannol perthnasol y Bwrdd Iechyd yn unol â'r awdurdodau ac fe'u defnyddiwyd at y dibenion a fwriadwyd. Fodd bynnag, ni chyflawnodd falans ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2020-21 y Bwrdd Iechyd.

13 Ochr yn ochr â'm barn archwilio, gosodais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd i dynnu sylw at y methiant i gyflawni balans ariannol ac i

gael cynllun tair blynedd cymeradwy ar waith ac i nodi rhagor o fanylion ar y paragraff Pwyslais ar Fater a gynhwysais yn fy marn archwilio

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

14 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad yr Awdurdod wedi fy arwain i ddod i'r casgliadau canlynol:

- mae'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at reoli COVID-19 yng Nghymru. Er bod y rhaglen wedi ei chael hi'n anodd ymdopi â brigau cynharach o drosglwyddo'r feirws, mae wedi dangos y gallu i ddysgu a datblygu'n gyflym mewn ymateb i'r heriau a wynebwyd ganddi.
- mewn cysylltiad â Threfniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru: ers yr adolygiadau blaenorol yn 2015, mae trefniadau llywodraethu, rheoli a chynllunio wedi gwella, ond bydd effaith COVID-19 bellach yn gofyn am strategaeth glir i adfer gwasanaethau a byddai manteision o hyd mewn adolygu'r trefniadau llywodraethu ehangach ar gyfer gwasanaethau arbenigol yn unol â'r ymrwymiadau yn 'Cymru Iachach'.
- darparwyd rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru ar garlam a bu partneriaid lleol, cenedlaethol a'r DU yn cydweithio i frechu cyfran sylweddol o boblogaeth Cymru. Mae angen cynllun clir yn awr ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau.
- rydym yn sicr bod y Bwrdd Iechyd wedi nodi cynlluniau clir ar y cyfan ar gyfer sut y bydd yn gwario'r cyllid cymorth ariannol strategol y mae'n ei gael gan Lywodraeth Cymru. Mae cynlluniau'n ystyried yn briodol yr adnoddau y bydd eu hangen i'w cyflawni, ond mae capasiti'r gweithlu, unrhyw fuddsoddiad mewn ystad gysylltiedig, a chyfyngiadau ar amserlenni caffael yn debygol o achosi risgiau parhaus.
- mae holl gyrff y GIG wedi cynnal pwyslais clir ar lesiant y staff drwy gydol y pandemig ac maent wedi gweithredu ystod eang o fesurau i gefnogi iechyd corfforol a llesiant meddyliol eu staff yn ystod yr argyfwng. Mae'n hanfodol adeiladu ar y gweithgareddau hyn, a bod llesiant staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth ganolog i gyrff y GIG wrth iddynt ymdrin â'r heriau cyfunol o adfer gwasanaethau, parhau i ymateb i bandemig COVID-19, yn ogystal â rheoli pwysau tymhorol.
- roedd gan y Bwrdd Iechyd drefniadau i wella'r broses cynllunio tymor byr ac mae'n adnewyddu ei strategaeth er mwyn helpu i sbarduno gwelliant, adfer gwasanaethau a chynaliadwyedd.
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud dechrau addawol ac ymddengys ei fod yn derbyn cyfrifoldeb am y broses ymyrraeth wedi ei thargedu yn dda. Mae trefniadau llywodraethu a rheoli risgiau yn gwella, fel y mae'r dull o gefnogi newid a gwelliant i'r gwasanaethau. Fodd bynnag, mae pwysau sylweddol ar

wasanaethau ac ôl-groniadau rhestrau aros yn debygol o fod yn heriau parhaus.

- mae incwm ychwanegol ynghyd â gwella cynllunio ariannol yn cryfhau rhagolygon ariannol y Bwrdd Iechyd, ond mae risg y gallai cyllid cyfalaf cyfyngedig atal y modelau gofal cynaliadwy tymor hwy a adeiladwyd ac y darparwyd adnoddau ar eu cyfer yn y gogledd.
- bu dirywiad sylweddol ym mherfformiad gwasanaethau gofal llygaid oherwydd y pandemig. Mae'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i wella ac, yn ddealladwy, mae'n mabwysiadu ymateb adweithiol i dwf mewn rhestrau aros a achoswyd gan y pandemig ochr yn ochr ag adeiladu ar ei gynlluniau mwy rhagweithiol yr oedd wedi dechrau eu datblygu yn 2018.
- nododd fy adolygiad rhanbarthol ar draws sectorau sy'n edrych ar gartrefi gofal a gomisiynir, er bod partneriaid yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i ddarparu lleoliadau cartrefi gofal i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n agored i niwed, gwneir hyn yn anos gan brosesau cenedlaethol cymhleth, sy'n arwain at bwyslais sylweddol ar gostau, sy'n achosi rhwyg ymhlith partneriaid ac sydd â'r potensial i gael effaith andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd.

15 Rhoddir ystyriaeth bellach i'r canfyddiadau hyn yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o'r cyfrifon

16 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21. Sut mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei asedau net, ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig, a'i lifau arian parod yw'r datganiadau hyn. Mae paratoi'r datganiadau yn elfen hanfodol o ran dangos stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus.

17 Roedd fy Nghynllun Archwilio 2021 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2020-21 y Bwrdd Iechyd. Mae **Arddangosyn 4** yn **Atodiad 3** yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw yn rhan o'r archwiliad.

18 Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

### Cywirdeb a pharatoi datganiadau ariannol 2020-21

19 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi'n briodol a'u bod yn sylweddol gywir, ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (fel yr oeddent yn berthnasol i'm harchwiliad). Fodd bynnag, rhoddais baragraff Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad i dynnu sylw at ddatgeliadau yn y cyfrifon sy'n ymwneud â Chyfarwyddyd Gweinidogol i gyllido rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr y GIG mewn cysylltiad â blwyddyn ariannol 2019-20.

20 Rydym yn cydnabod cyflawniad sylweddol y tîm Cyllid wrth baratoi'r datganiadau ariannol i safon dda yn wyneb yr heriau a gyflwynwyd yn sgil y pandemig.

21 Cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon, mae'n rhaid imi adrodd ar faterion sy'n codi o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwiliad Ariannol y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 10 Mehefin 2021. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol**

| Mater | Sylwadau'r Archwilydd |
| --- | --- |
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Roedd sawl camddatganiad wedi ei gywiro a gywirodd wallau dosbarthu neu a ddarparodd ddatgeliad naratif ychwanegol. |
| Materion arwyddocaol eraill | Nodwyd mater lle na wnaed nifer o ddatganiadau o fuddiant a oedd yn berthnasol i'r datganiadau ariannol.<br><br>Hefyd, er mwyn hwyluso orau y gwaith o archwilio'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth, gwnaethom godi bod Swyddog o hynafedd digonol sydd â mynediad addas at wybodaeth berthnasol yn paratoi'r adroddiad hwnnw. |

22 Cynhaliais hefyd adolygiad o ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Penderfynais fod gwybodaeth gadarnhau y gwrthbarti yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2021 a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

23 Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y Cronfeydd Elusennol ar y gweill ar hyn o bryd, a rhagwelaf y bydd y cyfrifon yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ar 20 Ionawr 2021, ar ôl ystyried fy adroddiad ar y datganiadau ariannol, a bydd y farn archwilio yn cael ei chyhoeddi yn fuan wedyn.

## Rheoleidd-dra trafodiadau ariannol

24 Roedd trafodiadau ariannol perthnasol y Bwrdd Iechyd yn unol â'r awdurdodau ac fe'u defnyddiwyd at y dibenion a fwriadwyd. Fodd bynnag, ni chyflawnodd falans ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2020-21 y Bwrdd Iechyd.

25 Mae'n rhaid i drafodiadau ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli nhw. Mae'n rhaid bod gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i dderbyn yr incwm ac i wario'r arian. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi er mwyn

sicrhau nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i'w derbyn nac i'w hysgwyddo.

26 Pan nad yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni balans ariannol, mae ei wariant yn fwy na'i bwerau i wario ac felly mae'n rhaid i mi gymhwyso fy marn reoleidd-dra. Ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, aeth y Bwrdd Iechyd y tu hwnt i'w derfyn adnoddau refeniw cronnol o £4,922 miliwn gan £79.485 miliwn, ac felly, ni chyflawnodd ei ddyletswydd ariannol.

27 Mae gennyf y pŵer i gyflwyno adroddiad sylweddol ynghylch cyfrifon y Bwrdd Iechyd ynghyd â'm barnau pan yr wyf yn dymuno tynnu sylw at faterion. Oherwydd methiant y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei ddyletswyddau ariannol, cyhoeddais adroddiad sylweddol sy'n nodi'r manylion ffeithiol: methodd yn ei ddyletswydd i sicrhau balans ariannol (fel y nodir uchod) ac nid oes ganddo gynllun tair blynedd cymeradwy ar waith ac mae'n gweithredu o dan drefniadau cynllunio blynyddol. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi rhagor o fanylion am y paragraff Pwyslais ar Fater yn fy marn archwilio.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

28 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad y Bwrdd Iechyd yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn fy helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- archwilio sut mae cyrff y GIG wedi ymateb i'r heriau o ddarparu'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu;
- adolygu trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru;
- adolygu pa mor dda yr oedd y broses o gyflwyno rhaglen frechu COVID-19 yn mynd rhagddi;
- ystyried sut mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu defnyddio a monitro'r dyraniad ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru;
- adolygu sut yr oedd cyrff y GIG yn cefnogi llesiant y staff yn ystod pandemig COVID-19;
- cynnal asesiad strwythuredig cam wrth gam o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus;
- adolygu gwasanaethau gofal llygaid; a
- chwblhau adolygiad rhanbarthol ar draws sectorau o'r lleoliadau cartrefi gofal pobl hŷn a gomisiynwyd.

29 Nodir isod fy nghasgliadau sy'n seiliedig ar y gwaith hwn.

## Rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu

30 Archwiliodd fy ngwaith sut yr ymatebodd gwasanaethau cyhoeddus i'r heriau o ddarparu Rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â rhoi sylwadau ar y ddarpariaeth Profi, Olrhain, Diogelu hyd at a chan gynnwys Rhagfyr 2020, nododd fy adroddiad rai heriau allweddol a chyfleoedd a wynebir yn rhan o'r frwydr barhaus o reoli COVID-19.

31 Canfuom fod gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru wedi cydweithio'n dda er mwyn adeiladu'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu yn gyflym. Roedd ffurfweddiad y system yn cyfuno arbenigedd technegol ac arbenigedd cenedlaethol a chyfrifoldeb lleol a rhanbarthol dros y rhaglen, a'r gallu i ddefnyddio deallusrwydd a gwybodaeth leol i lunio ymatebion.

32 Mae'r trefniadau ar gyfer profi ac olrhain cysylltiadau wedi datblygu wrth i'r pandemig fynd rhagddo. Ond roedd cynnal y perfformiad gofynnol yn y trefniadau hyn yn heriol yn wyneb y galw cynyddol.

33 Er gwaethaf rhagor o weithgarwch profi ac olrhain, parhaodd y feirws i ledaenu, ac fel mewn rhannau eraill o'r DU ac yn rhyngwladol, roedd angen ategu profion ac olrhain â chyfyngiadau symud lleol a chenedlaethol er mwyn ceisio lleihau'r cyfraddau trosglwyddo.

34 Er bod amrywiaeth o ddulliau cymorth yn bodoli, mae'n dal yn anodd gwybod pa mor dda y mae elfen 'diogelu' Profi, Olrhain, Diogelu wedi bod yn gweithio i gefnogi pobl i hunanynysu.

## Trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

35 Cyhoeddais fy adolygiad ar y trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ym mis Mai 2021. Cydbwyllgor yw Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, sy'n cynnwys y saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru ac sy'n cael ei gyllido ganddynt. O ddydd i ddydd, mae'r Cydbwyllgor yn dirprwyo cyfrifoldeb gweithredol dros gomisiynu i Swyddogion Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, drwy'r tîm rheoli. Mae gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, gyllideb flynyddol o £680 miliwn ac mae'n gwneud penderfyniadau ar y cyd ar adolygu, cynllunio, caffael a monitro perfformiad gwasanaethau arbenigol ar gyfer poblogaeth Cymru ar ran byrddau iechyd.

36 Yn 2015, tynnodd dau adolygiad ar wahân sylw at faterion yn ymwneud â threfniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. O ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers y ddau adolygiad, ynghyd â phwysau cynyddol ar wasanaethau a chyllid a'r dirwedd comisiynu cydweithredol sy'n newid,

teimlais ei bod yn amserol adolygu trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

37 Canfu fy adolygiad fod nifer o welliannau wedi eu gwneud i'r trefniadau llywodraethu cyffredinol ym Mhwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ers 2015. Gwnaed cynnydd da o ran cryfhau'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd gwasanaethau arbenigol, er bod lle o hyd i gynyddu'r sylw a roddir i gyllid, perfformiad ac adrodd ar ansawdd yn y Cydbwyllgor. Mae angen adolygu hefyd y trefniadau ar gyfer recriwtio aelodau annibynnol sy'n eistedd ar y Cydbwyllgor a'u taliadau cydnabyddiaeth o ystyried rhai o'r heriau wrth lenwi'r swyddogaethau hyn. Mae gan aelodau presennol y Cydbwyllgor berthynas waith iach ac maent yn gweithredu gyda'i gilydd yn dda. Fodd bynnag, mae'r model presennol yn peri gwrthdaro buddiannau posibl oherwydd bod rhai aelodau o'r Cydbwyllgor hefyd yn Brif Swyddogion y cyrff iechyd a gomisiynwyd i ddarparu gwasanaethau arbenigol.

38 Canfu fy adolygiad fod y trefniadau ar gyfer cynllunio gwasanaethau a gomisiynir yn dda ar y cyfan a bod pwyslais gwell ar werth. Fodd bynnag, mae rhai gwasanaethau newydd allweddol megis modelau gwasanaeth newydd ar gyfer trawma mawr a llawdriniaeth thorasig wedi cymryd amser hir i gytuno a gweithredu. Canfu fy adolygiad hefyd fod pandemig COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau arbenigol, ac y dylai datblygu cynllun er mwyn adfer gwasanaethau arbenigol fod yn flaenoriaeth yn awr. Dengys cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, Cymru Iachach, y bwriad o adolygu nifer o swyddogaethau a letyir yn genedlaethol, gan gynnwys Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, gyda'r nod o 'gyfuno gweithgarwch cenedlaethol ac o egluro llywodraethu ac atebolrwydd'.

39 Er bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi parhau i wella, dengys fy adroddiad fod nifer o agweddau o hyd ar fodel Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sy'n haeddu rhagor o sylw.

## Rhaglen frechu

40 Canolbwyntiodd fy archwiliad ar y broses o gyflwyno'r rhaglen COVID-19 yng Nghymru hyd at fis Mehefin 2021, y ffactorau a effeithiodd ar y broses honno a heriau a chyfleoedd yn y dyfodol.

41 Mae'r rhaglen frechu wedi cyflawni ar gyflymer sylweddol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, y cyfraddau brechu yng Nghymru oedd yr uchaf ymhlith pedair gwlad y DU, a rhai o'r cyfraddau uchaf yn y byd. Rhoes cerrig milltir yn strategaeth frechu Llywodraeth Cymru hwb cryf i sbarduno'r rhaglen a hyd at adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y cerrig milltir allweddol wedi eu cyflawni.

42 Mabwysiadwyd canllawiau Cydbwyllgor Brechu ac Imiwneiddio y DU ar grwpiau blaenoriaeth ond mae'r broses o nodi pobl yn rhai o'r grwpiau hynny wedi bod yn heriol.

43 Mae'r sefydliadau sy'n rhan o'r broses gyflwyno wedi gweithio'n dda er mwyn sefydlu ystod o fodelau brechu sy'n gwneud y defnydd gorau o'r brechlynnau sydd

ar gael, gan roi cyfleoedd hefyd i ddarparu brechlynnau yn agos at y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

44 Hyd at adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y nifer cyffredinol a oedd yn manteisio ar y brechlyn yn uchel, ond roedd y nifer yn llai ar gyfer rhai grwpiau ethnig a'r cymunedau mwyaf difreintiedig. Minimol oedd y gwastraff brechlynnau ar adeg yr archwiliad, ond roedd pryderon yn dod i'r amlwg ynghylch diffyg presenoldeb mewn apwyntiadau a drefnwyd.

45 Y gadwyn gyflenwi ryngwladol yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar y broses gyflwyno, a chyflenwad cyfyngedig o frechlynnau oedd yn cael ei chadw yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd ymwybyddiaeth gynyddol o'r lefelau cyflenwi yn y dyfodol yn caniatáu i fyrddau iechyd reoli'r broses o gyflwyno'r brechlyn yn effeithiol.

46 Wrth i'r rhaglen symud i ail hanner 2021, roedd heriau'n ymddangos o ran annog pobl i gael brechlyn ymhlith rhai grwpiau, gwydnwch y gweithlu brechu a'r lleoliadau a oedd ar gael. Mae angen cynllun tymor hwy i fynd i'r afael â'r rhain ac elfennau eraill o'r rhaglen frechu barhaus.

## Defnyddio dyraniad ychwanegol Llywodraeth Cymru

47 Cynhaliais adolygiad lefel uchel o gynlluniau'r Bwrdd Iechyd i ddefnyddio'r dyraniad ariannol strategol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020 am gyfnod o dair blynedd a hanner a disgwylir i'r cyfanswm fod oddeutu £297 miliwn.

48 O'r £297 miliwn, dyrannwyd £51 miliwn ar gyfer 2020-21. Cefnogodd £40 miliwn o hyn y sefyllfa o ran y diffyg ariannol a defnyddiwyd yr £11 miliwn sy'n weddill ar ofal wedi'i gynllunio, gofal heb ei drefnu a gwelliannau i'r gwasanaeth iechyd meddwl.

49 Ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, sef 2021-22, mae Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd yn rhannu'n glir y dyraniad cymorth strategol blynyddol o £82 miliwn dros nifer o gynlluniau yn unol â'r amodau eang a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. O'r £82 miliwn, dyrennir £40 miliwn i wella'r sefyllfa ariannol, a dyrennir y gweddill ar 18 maes arfaethedig i'w buddsoddi ar draws ystod o feysydd gwella gwasanaethau. Mae'r cynllun blynyddol yn dangos yr effaith ddisgwyliedig a'r elw o'r buddsoddiadau hyn. Canfûm hefyd drefniadau ffurfiol a oedd yn gwella o ran rheoli'r dyraniad ychwanegol drwy fabwysiadu achosion busnes, er mai'n araf yr oedd rhai ohonynt yn cael eu datblygu ar adeg y gwaith.

50 Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi trefniadau priodol ar waith i fonitro ac i oruchwylio'r defnydd o gyllid cymorth strategol. Mae wedi mabwysiadu dull tracio achos busnes refeniw ac mae'n cryfhau llywodraethu a goruchwylio ar lefel swyddogion drwy ei Grwpiau Cyflawni Gweithredol newydd. Canfu fy ngwaith fod trefniadau datblygedig sydd ar waith ar gyfer monitro cynlluniau'n barhaus, ond hefyd yr angen i sicrhau bod trefniadau monitro yn canolbwyntio ar a yw'r cyllid yn cyflawni y manteision a fwriadwyd ai peidio.

## Sut yr oedd cyrff y GIG yn cefnogi llesiant y staff yn ystod pandemig COVID-19

51 Ystyriodd fy adolygiad sut mae cyrff y GIG wedi cefnogi llesiant eu staff yn ystod y pandemig, gan ganolbwyntio'n benodol ar eu trefniadau ar gyfer diogelu staff sydd mewn mwy o berygl oherwydd COVID-19.

52 Mae staff y GIG wedi dangos gwydnwch ac ymroddiad aruthrol drwy gydol y pandemig, er eu bod wedi wynebu straen enfawr i'w hiechyd meddwl a chorfforol.

53 Roedd y GIG yng Nghymru eisoes yn wynebu nifer o heriau yn ymwneud â llesiant staff cyn y pandemig, ac mae'r argyfwng wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cefnogi iechyd meddwl a chorfforol gweithlu y GIG. Trwy fy ngwaith Asesu Strwythuredig, canfûm fod cyrff y GIG wedi symud yn sydyn ar ddechrau'r pandemig i wella mentrau llesiant er mwyn cefnogi'r staff drwy gyfnodau digynsail. Wrth i'r pandemig ddatblygu, canfuom fod cyrff y GIG yng Nghymru wedi gweithredu ystod o fesurau er mwyn gwella llesiant y staff, megis creu mannau gorffwys pwrpasol, cynyddu'r ddarpariaeth iechyd meddwl a llesiant seicolegol, gwella mesurau rheoli ac atal heintiau, a galluogi gweithio o bell.

54 Edrychodd fy ngwaith hefyd ar sut yr oedd cyrff y GIG yng Nghymru yn diogelu staff a oedd mewn mwy o berygl oherwydd COVID-19. Ymhlith mentrau diogelu eraill, canfûm fod pob corff wedi cyflwyno Adnodd Asesu Risg COVID-19 Cymru Gyfan ar gyfer y Gweithlu sy'n nodi'r rhai sydd mewn mwy o berygl ac yn annog sgwrs am fesurau ychwanegol i'w rhoi ar waith i sicrhau bod y staff yn cael eu diogelu'n ddigonol. Er bod cyrff y GIG wedi hybu ac annog y staff i gwblhau'r adnodd asesu, roedd y cyfraddau cwblhau yn amrywio rhwng cyrff y GIG.

55 Er nad oes dwywaith nad yw'r argyfwng wedi cael effaith sylweddol ar lesiant y staff yn y tymor byr, ni ellir amcangyfrif yn rhy isel yr effeithiau tymor hwy.

56 Gyda gweithlu sydd wedi blino'n llwyr yn emosiynol ac yn gorfforol yn fwy nag erioed, mae'n rhaid i gyrff y GIG yng Nghymru barhau i ganolbwyntio ar lesiant y staff ac ymgysylltu â'r staff er mwyn llywio drwy effeithiau tymor hwy yr argyfwng. Felly, mae rhestr wirio yn cyd-fynd â'm hadroddiad, sy'n nodi rhai o'r cwestiynau y dylai aelodau Bwrdd y GIG fod yn eu gofyn i sicrhau bod gan eu cyrff iechyd drefniadau da ar waith i gefnogi llesiant y staff.

## Asesiad strwythuredig

57 Cynlluniwyd fy ngwaith asesu strwythuredig yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig. Sicrheais ddull addas o bragmatig a pherthnasol i'm helpu i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol, gan leihau'r effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i'r pandemig. Ymgymerodd fy nhîm â'r gwaith mewn dau gam eleni:

- ystyriodd cam 1 y trefniadau cynllunio sy'n tanategu datblygiad a chyflawniad y cynllun gweithredol ar gyfer chwarteri tri a phedwar 2020-21.

- ystyriodd cam 2 sut mae trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol wedi eu haddasu yn ystod y flwyddyn. Talodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol.

## Trefniadau cynllunio gweithredol

58 Ystyriodd fy ngwaith drefniadau cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd sy'n tanategu'r cynllun gweithredol ar gyfer chwarteri tri a phedwar 2020-21. Roedd y fframwaith cynllunio'n cwmpasu'r gwaith o gynnal trefniadau cynllunio gweithredol effeithiol ac effeithlon mewn cyrff iechyd er mwyn arwain eu hymateb i'r pandemig yn ogystal ag ymateb i bwysau'r gaeaf a gosod y sylfeini ar gyfer adfer gwasanaethau'n effeithiol.

59 Canfu fy ngwaith fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau i wella'r broses cynllunio tymor byr a'i fod yn adnewyddu ei strategaeth er mwyn helpu i sbarduno gwelliant, adfer gwasanaethau a chynaliadwyedd.

60 Roedd cynllun Chwarter 3-4 y Bwrdd Iechyd yn bodloni gofynion canllawiau Llywodraeth Cymru yn fras trwy ganolbwyntio ar bedwar niwed COVID-19 a thrwy gynnwys modelu pwysau'r gaeaf yn 2020. Roedd cynllun Chwarter 3-4 yn darparu cyswllt da rhwng cynlluniau blaenorol, gan ddwyn ymlaen gamau gweithredu a phrosiectau nad oeddent wedi eu cwblhau'n llawn, a heriau tymor hwy megis ailddechrau ac adfer gwasanaethau.

61 Nododd y Bwrdd Iechyd ddull uchelgeisiol ond heriol o ddatblygu ei Gynllun Blynyddol 2021-22 sy'n gofyn am ddylunio o'r brig i lawr ac ymgysylltu o'r gwaelod i fyny. Fodd bynnag, oherwydd pwysau'r pandemig ar y ddarpariaeth wasanaethau cyfyngwyd ar allu rheolwyr gwasanaethau allweddol i ymgysylltu. Craffir ar gynlluniau cyn eu cymeradwyo a chaiff y cynnydd ei adrodd a'i herio o'i gymharu â chyflawni'r cynllun, ond mae angen pwyslais cryfach ar y canlyniadau a gyflawnir drwy gyflawni'r cynllun.

62 Mae'r Bwrdd Iechyd bellach wedi ymrwymo i adnewyddu ei strategaeth gorfforaethol, i ddatblygu cynllun tymor canolig integredig, ac i ddechrau datblygu strategaeth glinigol. Mae pwysau sylweddol yn wynebu'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd, ond mae'n addawol ei fod yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau uniongyrchol hynny yn ogystal ag ymgymryd â gwaith i lunio'r sefydliad fel ei fod yn addas ac yn gynaliadwy yn y dyfodol.

## Trefniadau llywodraethu

63 Ystyriodd fy ngwaith allu'r Bwrdd Iechyd i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn gan orfod ymateb i'r heriau digynsail a gyflwynid gan y pandemig. Y trefniadau corfforaethol a fu pwyslais allweddol y gwaith, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus. Ystyriais hefyd sut y cafodd busnes a ohiriwyd yn 2020 ei adfer a sut mae dysg o'r pandemig yn llywio trefniadau yn y dyfodol er mwyn sicrhau llywodraethu da parhaus ac adferiad.

64 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud dechrau addawol a'i fod yn derbyn cyfrifoldeb yn dda o ran gwneud gwelliannau i fynd i'r afael â'r materion yn y fframwaith ymyriad wedi'i dargedu. Mae trefniadau llywodraethu a rheoli risgiau yn gwella, fel y mae'r dull o gefnogi newid a gwelliant i'r gwasanaethau. Fodd bynnag, bydd pwysau sylweddol ar wasanaethau ac ôl-groniadau rhestrau aros yn heriau parhaus. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal hunanasesiad cytbwys ond beirniadol o'i gymharu â'r fframwaith aeddfedrwydd sy'n sail ar gyfer sbarduno gwelliannau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn addasu ei drefniadau llywodraethu wrth i natur y pandemig a phwysau gwasanaethau ehangach ddatblygu, o ran parodrwydd am argyfwng yn ogystal ag adolygu ei drefniadau llywodraethu corfforaethol ehangach.

65 Er nad yw'n unigryw i'r Bwrdd Iechyd, mae graddau'r her o adfer yn sylweddol. Mae'r pandemig, ochr yn ochr â phwysau gofal heb ei drefnu sylweddol, yn parhau i effeithio ar gapasiti'r gwasanaethau sydd ar gael a chynhyrchiant gwasanaethau ehangach. Bydd adferiad cynaliadwy, ar gyfer gofal wedi'i gynllunio a gofal heb ei drefnu, yn gofyn am ddulliau cryfach o integreiddio gwasanaethau ar draws safleoedd acíwt, ac am integreiddio gwasanaethau rhwng gwasanaethau acíwt a chymunedol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau rhaglen 'Cryfach Gyda'n Gilydd' sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd, perfformiad, cynhyrchiant, a dylai hyn helpu i lunio gofynion a dyluniad y datblygu sefydliadol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i gryfhau ymhellach ei drefniadau goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Mae hyn yn enwedig o bwysig oherwydd y gallai'r straen parhaus ar wasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol ac acíwt gyflwyno risgiau ansawdd a diogelwch ychwanegol.

## Rheoli adnoddau ariannol

66 Ystyriais berfformiad ariannol, rheolaethau ariannol a threfniadau y Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad ariannol. Canfûm fod incwm ychwanegol ynghyd â gwella cynllunio ariannol yn cryfhau rhagolygon ariannol y Bwrdd Iechyd, ond bod risg y gallai cyllid cyfalaf cyfyngedig atal y modelau gofal cynaliadwy tymor hwy a adeiladwyd ac y darparwyd adnoddau ar eu cyfer yn y gogledd.

67 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu cyflawni sefyllfa refeniw ariannol cytbwys ers sawl blwyddyn. Ond yn 2020-21, galluogodd y cyllid refeniw ariannol blynyddol, ynghyd â dyraniadau ariannol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i'r Bwrdd Iechyd fantoli ei wariant o fewn ei derfyn adnoddau refeniw. Oherwydd bod deddfwriaeth yn gofyn am falans ariannol dros dair blynedd yn ogystal â chynllun tymor canolig sy'n gynaliadwy yn ariannol, mae hyn wedi golygu bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i beidio â chyflawni ei ddwy brif ddyletswydd ariannol statudol ar hyn o bryd.

68 Mae'r broses cynllunio ariannol yn gwella, ac er bod y Bwrdd Iechyd yn deall ei risgiau ariannol, gallai dyraniad cyfalaf ariannol cyfyngedig effeithio ar gynaliadwyedd ac effeithlonrwydd gwasanaethau yn y tymor hwy. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ganolbwyntio ar wella ei reolaethau ariannol mewn cysylltiad â gwariant COVID-19. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu gwelliannau ar drefniadau llywodraethu ariannol COVID-19 y Bwrdd Iechyd a nodwyd gan ei 'gell

llywodraethu ariannol'. Caiff gwariant COVID-19, a chyllid ehangach eu hadrodd a'u harchwilio'n briodol yn y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (blaenorol).

## Adolygiad o wasanaethau gofal llygaid

69 Yn rhan o'm rhaglen archwilio leol, rwyf wedi adrodd ar wasanaethau a threfniadau gofal llygaid y Bwrdd Iechyd sydd ar waith i gefnogi, gwella a moderneiddio gwasanaethau.

70 Yn gyffredinol, canfu fy adolygiad y bu dirywiad sylweddol ym mherfformiad gwasanaethau gofal llygaid oherwydd y pandemig. Mae'r galw am atgyfeiriadau yn cynyddu bellach ar gyfradd sy'n uwch nag y mae capasiti'r gwasanaethau'n gwella, sy'n arwain at dwf mewn rhestrau aros. Mae fy adroddiad yn nodi'n glir yr angen i wella effeithlonrwydd gwasanaethau a oedd yn is na'r cyfartaledd cyn y pandemig ac maent wedi dirywio ers hynny. Mae'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i wella ac, yn ddealladwy, mae'n mabwysiadu ymateb adweithiol i dwf mewn rhestrau aros a achoswyd gan y pandemig, ochr yn ochr ag adeiladu ar ei gynlluniau mwy rhagweithiol yr oedd wedi dechrau eu datblygu yn 2018.

71 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei ddull o newid gwasanaethau gofal llygaid drwy ei achos busnes gofal llygaid. Mae wedi meithrin perthynas gryfach â gwasanaethau gofal sylfaenol, ehangu gwasanaethau cymunedol, ac mae'n archwilio ffyrdd ychwanegol o ddarparu gofal yn nes at gartrefi cleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ceisio datblygu canolfannau triniaeth rhanbarthol sy'n debygol o gynnwys gwasanaethau gofal llygaid. Bydd y capasiti lleol ychwanegol hwnnw'n cymryd amser i'w ddatblygu, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu dull rhesymegol drwy gytuno ar gontract newydd mawr â darparwr allanol i ddarparu gwasanaethau ychwanegol ar gontractau allanol.

72 Bydd modelau gofal acíwt tymor hwy yn gofyn am weithlu cryf ac ystad sy'n cefnogi gofal effeithlon o ansawdd da. Fodd bynnag:

- mae risgiau'r gweithlu yn y gwasanaeth yn sylweddol, ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ganddo gynlluniau gweithlu da sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae angen llenwi swyddi gwag yn y strwythur arweinyddiaeth glinigol, ac mae cyfle i ystyried sut mae arweinyddiaeth glinigol Offthalmoleg ac Optometreg yn dod at ei gilydd mewn strwythur mwy integredig.
- mae angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried yn well hefyd y newidiadau y mae angen iddo eu gwneud i'w ystad er mwyn datblygu capasiti sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac sy'n cefnogi gwelliannau mewn effeithlonrwydd.

## Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn

73 Yn ystod 2020-21, gwnaethom archwilio a oedd cynghorau'r Gogledd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn bartneriaid yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn cydweithredu'n effeithiol wrth gomisiynu lleoliadau cartrefi gofal pobl hŷn yn strategol. Daethom i'r casgliad bod partneriaid yn gweithio'n unigol ac

ar y cyd i ddarparu lleoliadau cartrefi gofal i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, gwneir hyn yn anos gan brosesau cenedlaethol cymhleth, sy'n arwain at bwyslais sylweddol ar gostau, sy'n achosi rhwyg ymhlith partneriaid ac sydd â'r potensial i gael effaith andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. Mae gan gryfhau atebolrwydd a datblygu strategaeth a chynllun darparu rhanbarthol y potensial o ysgogi newid cadarnhaol a gweithio mewn partneriaeth yn well, yn enwedig mewn cysylltiad â gofal cymhleth a mwy arbenigol.

74 I gloi'r gwaith hwn, gwnaethom gydnabod bod y cyfrifoldeb am yr heriau presennol yn y trefniadau comisiynu, yn gyffredin. Mae Llywodraeth Cymru yn pennu'r fframwaith cenedlaethol, sy'n gymhleth, ac mae partneriaid lleol yn gyfrifol am y ffordd y caiff polisïau a chanllawiau cenedlaethol eu gweithredu. Felly, rwyf wedi adrodd yn lleol, i gynghorau a'r Bwrdd Iechyd, ac yn genedlaethol i Lywodraeth Cymru, gan argymell y camau y dylai'r cyrff hyn eu cymryd.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2021.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol | Mehefin 2021 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2021 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Ei Wneud yn Wahanol, Ei Wneud yn Iawn?<br>(Asesiad Strwythuredig 2020 Themâu, gwersi a chyfleoedd Cymru gyfan sy'n ymwneud â llywodraethu'r GIG yn ystod COVID-19) | Ionawr 2021 |
| Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru: Trosolwg o'r Cynnydd Hyd Yma | Mawrth 2021 |
| Trefniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Mai 2021 |
| Asesiad Strwythuredig 2021 – Cam 1: Trefniadau Cynllunio Gweithredol | Mai 2021 |
| Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru | Mehefin 2021 |

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| Defnyddio dyraniad ychwanegol Llywodraeth Cymru | Awst 2021 |
| Gofalu am y Gofalwyr?<br>(Asesiad Strwythuredig 2020 Themâu, gwersi a chyfleoedd Cymru gyfan sy'n ymwneud â llesiant staff y GIG yn ystod COVID-19) | Hydref 2021 |
| Asesiad Strwythuredig 2021 – Cam 2 Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Ariannol | Tachwedd 2021 |
| Adolygiad o Wasanaethau Gofal Llygaid | Rhagfyr 2021 |
| Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn | Rhagfyr 2021 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2021 | Mawrth 2021 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn 2021 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a phynciau ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan. Mae'r astudiaethau hyn yn arfer yn cael eu cyllido drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus er mwyn gefnogi ei waith o graffu ar wariant cyhoeddus. Mae adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio sy'n dal i fynd rhagddo**

Mae nifer o archwiliadau sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau amcangyfrifedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Amcangyfrif o'r dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Gofal heb ei drefnu | Cam 1 – Ionawr 2022<br>Mae amseru gwaith ychwanegol a gynhwysir yn rhan o gynllun 2022 i'w gadarnhau o hyd. |
| Orthopedeg | Chwefror 2022 |
| Ansawdd Llywodraeth | Ionawr 2022 |
| Archwiliad o Adroddiad Datganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol | Ionawr 2022 |
| Barn ar Ddatganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol | Ionawr 2022 |
| Cleifion Allanol Dilynol | Ebrill 2022 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2021 yn nodi ffi archwilio arfaethedig o £407,921 (heb gynnwys TAW). Ar y sail bod rhywfaint o waith yn parhau i fynd rhagddo, mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn cyd-fynd â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwiliad ariannol

**Arddangosyn 4: risgiau archwilio ariannol**

Roedd fy Nghynllun Archwilio 2021 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2020-21 y Bwrdd Iechyd. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw yn rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Y risg bod rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. O ganlyniad i natur anrhagweladwy y gallai'r gwrth-wneud hyn ddigwydd, ystyrir ei bod yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb yr wybodaeth yn y cyfnodolion a newidiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• archwilio amcangyfrifon cyfrifyddu am ragfarnau; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol. | Ar sail sampl, gwnaethom brofi cofnodion cyfnodolion ac amcangyfrifon cyfrifyddu ac ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth bod y rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau.<br>Roeddem yn fodlon bod y cyfrifon yn rhydd o wallau perthnasol. |
| Mae perygl o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll wrth gydnabod refeniw, ac o'r herwydd fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.26-27]. | Bydd fy nhîm archwilio yn ystyried cyflawnrwydd incwm amrywiol. | Yn rhan o'n profion archwilio, gwnaethom waith er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch cyflawnrwydd incwm amrywiol, gan gynnwys cadarnhau trydydd partïon. Roeddem yn fodlon ei fod yn rhydd o wallau perthnasol. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Er bod y Bwrdd yn rhagweld ar hyn o bryd y bydd yn mantoli'r cyfrifol yn 2020-21, bydd yn methu â chyflawni ei ddyletswydd ariannol gyntaf o fantoli'r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd unwaith eto.<br>Pan fyddwch yn methu'r ddyletswydd ariannol hon, byddwn yn rhoi adroddiad sylweddol ar y datganiadau ariannol sy'n tynnu sylw at y methiant ac yn cymhwyso eich barn rheoleidd-dra.<br>Mae'r pwysau ariannol ar y Bwrdd yn cynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr fod yn rhagfarnllyd, er mwyn sicrhau bod y sefyllfa a ragwelir yn cael ei fodloni. | Bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio eu profion ar feysydd o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys rhagfarn wrth lunio adroddiadau. | Gwnaethom ymgymryd ag ystod o waith archwilio i roi sicrwydd ynghylch y risg o ragfarn er mwyn sicrhau nad oedd y sefyllfa wirioneddol o ran diffyg yn gwaethygu o'i chymharu â'r sefyllfa a ragwelwyd. Roedd hyn yn cynnwys:<br>• proses fanwl o brofi samplau o drafodiadau y naill ochr o ddiwedd y flwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi yn y cyfnod cyfrifyddu cywir. Canolbwyntiwyd hyn ar y meysydd a oedd yn peri'r risg fwyaf.<br>• sicrhau bod amcangyfrifon cyfrifyddu yn cael eu paratoi ar sail resymol a'u bod yn cael eu hategu gan ddyfarniadau cyfrifyddu priodol.<br>Roeddem yn fodlon bod y cyfrifon yn rhydd o wallau perthnasol. Fodd bynnag, amodais y farn archwilio ynglŷn â rheoleidd-dra. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae argyfwng cenedlaethol COVID-19 yn parhau a gallai'r pwysau ar adnoddau staff a gweithio o bell effeithio ar y broses o baratoi ac archwilio cyfrifon. Mae risg y gallai ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol gael eu cyfaddawdu, a fyddai'n arwain at ragor o achosion o wallau. Gallai trefniadau monitro ansawdd gael eu cyfaddawdu oherwydd materion amseru a/neu'r adnoddau sydd ar gael. | Byddwn yn trafod eich proses cau a'ch trefniadau monitro ansawdd â'r tîm paratoi cyfrifon ac yn monitro'r broses o baratoi cyfrifon. Byddwn yn helpu i nodi meysydd lle bo bylchau yn y trefniadau. | Gwnaethom gadw mewn cysylltiad cyson â'r Tîm Cyllid i ddeall y broses o baratoi cyfrifon, ac unrhyw newidiadau a wnaed i'r broses hon oherwydd pandemig COVID-19.<br>Gwnaethom fodloni ein hunain bod y Tîm Cyllid wedi gwneud trefniadau da er mwyn darparu set gywir o ddatganiadau ariannol o ansawdd uchel. |
| Bydd y ffrydiau cyllido a'r gwariant cynyddol yn 2020-21, er mwyn ymdrin â phandemig COVID-19, yn cael effaith sylweddol ar y risgiau o gamddatganiad perthnasol a siâp ac ymagwedd ein harchwiliad. Mae enghreifftiau o faterion yn cynnwys cyfrif am ysbytai maes a'u costau cysylltiedig; risgiau twyll, gwallau a rheoleidd-dra y gwariant ychwanegol; prisio stocrestr diwedd y flwyddyn gan gynnwys cyfarpar diogelu personol; ac amcangyfrif balansau gwyliau blynyddol. | Byddwn yn nodi'r materion allweddol a'r risgiau cysylltiedig ac yn cynllunio ein gwaith i gael y sicrwydd sydd ei angen arnom ar gyfer ein harchwiliad. | Gwnaethom amrywiaeth o waith archwilio i nodi'r holl ffrydiau cyllid a gwariant ychwanegol a ddisgwylir yn y cyfrifon drwy gysylltu â'r Tîm Cyllid a Llywodraeth Cymru.<br>Darparwyd canllawiau canolog i helpu i archwilio'r maes cymhleth hwn.<br>Gwnaethom fodloni ein hunain bod yr incwm ychwanegol a'r gwariant yn rhydd o wallau perthnasol a'u bod wedi eu dosbarthu'n gywir yn y cyfrifon. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae gweithredu menter 'cynllun sy'n talu' mewn cysylltiad â threfniadau treth pensiwn y GIG ar gyfer staff clinigol ar y gweill. Y llynedd, gwnaethom gynnwys paragraff Pwyslais ar Fater yn y farn archwilio, gan dynnu sylw at eich datgeliad o'r rhwymedigaeth ddigwyddiadol. Fodd bynnag, os gwneir unrhyw wariant yn ystod y flwyddyn, byddem yn ei ystyried yn afreolaidd, gan ei fod yn groes i ofynion Rheoli Arian Cyhoeddus. | Byddwn yn adolygu'r dystiolaeth flwyddyn yn ddiweddar, ynghylch y nifer sy'n manteisio ar y cynllun a'r angen am ddarpariaeth, a'r effaith ganlyniadol ar y farn rheoleidd-dra. | Gwnaethom fodloni ein hunain bod y datgeliad o rwymedigaeth ddigwyddiadol a wnaed yn y cyfrifon yn briodol. Roedd Pwyslais ar Fater mewn cysylltiad â'r mater hwn wedi ei gynnwys yn yr adroddiad archwilio. |
| Gohiriwyd cyflwyniad Lesoedd Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 tan 1 Ebrill 2022 a gallant beri risgiau gweithredu. Mae angen cryn waith i nodi lesoedd, a gallai argyfwng cenedlaethol COVID-19 beri risgiau gweithredu. | Bydd y tîm archwilio'n ymgymryd â rhywfaint o waith cynnar er mwyn adolygu'r parodrwydd i gyflwyno Lesoedd Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16. | O ganlyniad i bandemig COVID-19, gohiriwyd gweithrediad Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 tan 2021-22. Byddwn yn ymgymryd â'r gwaith hwn y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, gwnaethom gynnal trafodaethau rhagarweiniol ar gynnydd parodrwydd Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16. |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.